Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Adroddiad Monitro Perfformiad:
Ebrill 2025 – Mawrth 2026

Our five principles for keeping communities safe

PEOPLE PREVENTION PROTECTION RESPONSE ENVIRONMENT

## Cynnwys

**Ein Hegwyddor Pobl** ........ **2**
1 Absenoldeb Salwch ........ 2
a. Pob Absenoldeb Salwch ........ 2
1.2 Salwch Tymor Byr ........ 3
1.3 Salwch Hirdymor ........ 6
**Ein Hegwyddor Atal** ........ **10**
2 Pob Digwyddiad ........ 10
3 Tanau Damweiniol mewn Anheddau (TDAau) ........ 11
4 Prif Achosion Tanau Damweiniol mewn Anheddau ........ 15
5 Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau Damweiniol mewn Anheddau 18
6 Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Anheddau ........ 19
7 Galwadau Gwasanaeth Arbennig (GGAau) ........ 24
Diogelwch ar y Ffyrdd ........ 27
8 Archwiliadau Diogel ac Iach ........ 30
**Ein Hegwyddor Diogelu** ........ **37**
9 Galwadau Diangen ........ 37
10 Galwadau System Larwm Awtomatig (SLA) Masnachol ........ 39
11 Galwadau SLA Ysbytai ........ 41
12 CEF Berwyn ........ 43
**Ein Hegwyddor Ymateb** ........ **47**
13 Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad (SDAA) ........ 47
14 Cynllun Argaeledd 18 Pwmp ........ 49
16 Technolegau sy'n Dod i'r Amlwg ........ 50
**Ein Hegwyddor Amgylchedd** ........ **52**
15 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau ........ 52
16 Tanau gwyllt ........ 53
17 Llifogydd ........ 54
**Geirfa** ........ **56**

# Ein Hegwyddor Pobl

## 1 Absenoldeb Salwch


Nod y Gwasanaeth yw annog ei holl weithwyr i fod yn bresennol yn y gwaith i'r graddau uchaf posibl, ond gan gydnabod na fydd gweithwyr, o bryd i'w gilydd, yn gallu dod i'r gwaith oherwydd salwch.

Cyfanswm yr amser a gollwyd i absenoldeb salwch yn 2025/26 oedd 4.98%. Mae hyn yn ostyngiad o 5.13% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sy'n dangos gwelliant cyffredinol mewn presenoldeb.

Roedd 979 o unigolion yn cael eu cyflogi gan GTAGC ar 31/03/2026, sy'n gynnydd o 30 o bobl o gymharu â'r un cyfnod yn 2024/25

Sylwer, drwy gydol yr adroddiad, na fydd nifer yr achosion yn y flwyddyn hyd yma (BHY) yn gyfanswm y chwarteri gan y bydd absenoldebau rhai unigolion yn ymestyn ar draws chwarteri. Gall fod amrywiadau hefyd yn y niferoedd a adroddir o chwarter i chwarter o ganlyniad i newidiadau mewn data gweithwyr.

### a. Pob Absenoldeb Salwch





Yn gyffredinol, mae'r diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch wedi aros ar lefel gymharol debyg yn ystod chwarter 1 i 3 yn 2025/26, gyda nifer y

diwrnodau a gollwyd yn ystod chwarter 4 ar ei isaf eleni, ac ar lefel debyg i chwarter 4 yn 2024/25. Fodd bynnag, i'r gwrthwyneb, mae nifer yr achosion o absenoldeb wedi cynyddu yn ystod chwarter 3 a 4. Er bod diwrnodau a gollwyd a nifer yr achosion wedi cynyddu ychydig yn ystod Chwarter 3 2025/26, roedden nhw'n dal i fod yn is na'r lefelau a gofnodwyd yn Chwarter 3 y flwyddyn flaenorol. Mae'r gwelliant hwn wedi digwydd ochr yn ochr â chynnydd yn niferoedd cyffredinol y staff, sy'n dangos tuedd gadarnhaol barhaus o ran rheoli absenoldeb salwch ar draws y Gwasanaeth.
Mae **tymor byr** yn golygu cyfnodau unigol o salwch o 27 diwrnod calendr neu lai.
Mae **hirdymor** yn golygu cyfnodau unigol o 28 diwrnod calendr neu fwy.

### 1.2 Salwch Tymor Byr


Roedd absenoldeb tymor byr yn cyfrif am 1.09% o gyfanswm yr amser a gollwyd ar draws pob math o ddyletswydd yn ystod 2025/26, sy'n ostyngiad o 1.12% yn ystod 2024/25.

Yn gyffredinol, arhosodd nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch tymor byr yn gymharol gyson trwy gydol 2025/26. Gwelwyd y nifer uchaf o ddiwrnodau a gollwyd yn chwarter 1 ar 973, tra bod yr isaf yn chwarter 2 ar 880. Roedd nifer yr achosion o salwch tymor byr yn is yn chwarteri 1 a 2, gan gynyddu yn chwarteri 3 a 4 i gyfartaledd o 153 o achosion.




(System Dyletswydd Amser Cyflawn (SDAC) - yn cynnwys yr holl staff gweithredol amser cyflawn, megis swyddogion mewn gorsafoedd, swyddogion gwledig a swyddogion dyletswydd hyblyg.

Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth (TAG) wedi ei rannu fel bod aelodau gweithredol y TAG yn cael eu cynnwys o fewn y ffigurau amser cyflawn, a bod Penaethiaid Adrannau wedi'u cynnwys o fewn ffigurau'r Adrannau Corfforaethol).




Gostyngodd nifer yr achosion o salwch tymor byr a'r diwrnodau a gollwyd yn chwarter 4 ar draws systemau dyletswydd amser cyflawn, ar alwad ac ystafell reoli, ac eithrio staff corfforaethol, lle cynyddodd nifer yr achosion a'r diwrnodau a gollwyd. Drwy gydol 2025/26, gwnaeth lefelau absenoldeb tymor byr amrywio ar draws pob math o ddyletswydd, heb unrhyw duedd gyson ar i fyny neu ar i lawr.

Roedd staff amser cyflawn yn cyfrif am 34% o gyfanswm y diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch tymor byr trwy gydol y flwyddyn, gyda hyd absenoldeb cyfartalog o 7.5 diwrnod calendr fesul gweithiwr.

Staff ar alwad, sy'n ffurfio 51.3% o'r gweithlu, oedd yn cyfrif am 46% o'r achosion o absenoldeb tymor byr ar gyfartaledd. Arhosodd nifer yr achosion yn debyg i raddau helaeth ar draws chwarteri 2, 3 a 4; fodd bynnag, cynyddodd hyd cyfartalog yr absenoldeb i 7.13 diwrnod calendr, i fyny o 6.3 diwrnod calendr yn 2024/25.

Staff corfforaethol oedd yn cyfrif am 21.3% o'r achosion absenoldeb tymor byr yn ystod chwarter 4, gyda chynnydd yn nifer yr achosion a'r diwrnodau a gollwyd o gymharu â chwarteri blaenorol. Ar draws 2025/26, staff corfforaethol oedd yn cyfrif am 14.4% o'r holl absenoldeb tymor byr, gyda hyd absenoldeb cyfartalog o 5.6 diwrnod.

**Y 3 Phrif Reswm dros Absenoldeb Salwch Tymor Byr (yn ôl achos)**

| | Rheswm dros Absenoldeb | Achosion | % Amser a Gollwyd |
|---|---|---|---|
| 1 | Annwyd/Ffliw | 30 | 13.04% |
| 2 | Cyhyrysgerbydol - Aelodau Uchaf y Corff | 7 | 8.73% |
| 3 | Cyhyrysgerbydol - Aelodau Isaf y Corff | 2 | 3.56% |

*Mae '% Amser a Gollwyd' yn seiliedig ar y diwrnodau a gollwyd yn hytrach na nifer yr achosion*


Annwyd/ffliw oedd yr achos mwyaf cyffredin o absenoldeb salwch tymor byr yn chwarteri 3 a 4, yn cyfrif am 22.1% a 13.04% o'r amser a gollwyd yn y drefn honno. Roedd hyn yn gynnydd sylweddol o chwarteri 1 a 2, lle roedd annwyd/ffliw yn cyfrif am 3.4% ac 8.4% o'r amser a gollwyd. Heb ystyried y cynnydd yn nifer yr achosion yn chwarter 3 a 4, roedd absenoldebau sy'n gysylltiedig ag annwyd/ffliw yn para 4.4 diwrnod ar gyfartaledd.

Mae'r duedd hon yn cyfateb i wybodaeth a gyhoeddwyd gan NHS England, a adroddodd ym mis Hydref 2025 fod y tymor ffliw wedi effeithio ar y GIG fwy na mis yn gynharach na'r arfer, gyda lefelau achosion deirgwaith yn uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Roedd yr holl gyflyrau cyhyrysgerbydol yn cyfrif am 24.9% o'r achosion o absenoldeb tymor byr yn ystod 2025/26, gyda hyd cyfartalog o 9 diwrnod, gydag achosion sy'n effeithio ar aelodau uchaf y corff yn fwyaf cyffredin yn y categori hwn (9.44%), yna'r aelodau isaf (8.37%), ac yna'r cefn/asgwrn cefn (7.09%). Mae ffisiotherapi a ariennir gan y gwasanaeth a therapïau corfforol amgen yn parhau i gael eu defnyddio'n helaeth, yn enwedig ar gyfer cyflyrau sy'n effeithio ar yr aelodau isaf, yr ysgwydd, y gwddf a'r cefn, gan gefnogi ymyrraeth gynnar ac atal absenoldeb.

### 1.3 Salwch Hirdymor


Roedd absenoldeb hirdymor i gyfrif am 3.89% o gyfanswm yr amser a gollwyd ar draws pob math o ddyletswydd yn ystod 2025/26, sy'n ostyngiad o 4.06% yn ystod 2024/25. Tra bod y nifer uchaf o ddiwrnodau o absenoldeb salwch hirdymor wedi'i gofnodi yn chwarter 3 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelodd chwarter 4 ostyngiad cyffredinol yn y diwrnodau a gollwyd ond cynnydd yn




nifer yr achosion.

Gwnaeth nifer y diwrnodau o absenoldeb hirdymor ar gyfer staff amser cyflawn amrywio trwy gydol y flwyddyn; gwelodd chwarter 4 ostyngiad o 100 diwrnod o gymharu â chwarter 3, fodd bynnag, gwelodd hefyd y nifer uchaf o achosion amser cyflawn ers chwarter 3 2024/25. Ar draws 2025/26, hyd cyfartalog absenoldeb salwch hirdymor staff amser cyflawn oedd 44 diwrnod.

Gwelwyd gostyngiad yn y diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch hirdymor ar gyfer staff ar alwad yn ystod chwarter 4, fodd bynnag, arhosodd nifer yr achosion ar yr un lefel â chwarter 3. Roedd absenoldeb ar alwad yn cyfrif am 54% o'r holl absenoldeb hirdymor, gydag absenoldebau cyfartalog yn para 52 diwrnod.




Gwnaeth nifer yr achosion o absenoldeb hirdymor a'r diwrnodau a gollwyd ar gyfer staff Ystafell Reoli barhau'n sefydlog ar draws chwarteri 1, 2 a 3 cyn lleihau yn chwarter 4.

Cynyddodd absenoldeb salwch hirdymor staff corfforaethol, o ran nifer yr achosion a'r diwrnodau a gollwyd, yn sylweddol yn chwarter 2 cyn gostwng eto yn chwarter 3. Er bod nifer y diwrnodau a gollwyd wedi parhau i ostwng yn chwarter 4, cynyddodd nifer yr achosion o salwch hirdymor ymhlith staff corfforaethol eto yn ystod y cyfnod hwn.

Yn gyffredinol, mae rolau corfforaethol yn cyfrif am 15.2% o staff y Gwasanaeth a 13.2% o'r holl achosion o absenoldeb salwch hirdymor yn ystod 2025/26. Hyd cyfartalog absenoldeb salwch hirdymor staff corfforaethol oedd 51.5 diwrnod.

**Y 3 Phrif Reswm dros Absenoldeb Salwch Hirdymor (yn ôl achos)**

| | Rheswm dros Absenoldeb | Achosion | % Amser a Gollwyd |
|---|---|---|---|
| 1 | Iechyd Meddwl - Straen | 11 | 16.29% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2 | Cyhyrysgerbydol - Aelodau Uchaf y Corff | 7 | 12.15% |
| 3 | Cyhyrysgerbydol - Aelodau Isaf y Corff | 7 | 11.13% |

*Mae '% Amser a Gollwyd' yn seiliedig ar y diwrnodau a gollwyd yn hytrach na nifer yr achosion.*

Mae 'Iechyd Meddwl – Straen' a 'Cyhyrysgerbydol – Aelodau Isaf y Corff' yn parhau i fod ymhlith y 3 phrif reswm dros salwch hirdymor yn ystod chwarter 4, gydag absenoldeb 'Cyhyrysgerbydol – Aelodau Uchaf y Corff' yn uwch nag absenoldebau yn sgil methu prawf meddygol/ffitrwydd am y tro cyntaf yn y flwyddyn bresennol. Er nad yw absenoldebau 'Cyhyrysgerbydol – Aelodau Uchaf y Corff' wedi cynyddu yn ystod chwarter 4, mae nifer y gweithwyr a oedd yn absennol yn yr hirdymor yn sgil methu profion meddygol/ffitrwydd wedi gostwng o 7 achos yr un yn chwarter 1, 2 a 3 i 4 achos yn chwarter 4, sy'n dangos gwelliant cyffredinol o ran lefelau ffitrwydd gweithwyr.

Iechyd meddwl oherwydd straen sy'n parhau i fod yr achos mwyaf cyffredin o absenoldeb salwch hirdymor, gan gyfrif am 15.6% o'r absenoldebau hirdymor yn ystod 2025/26. Hyd cyfartalog absenoldeb o'r fath oedd 54 diwrnod.

Gwnaeth cymorth iechyd meddwl a lles ychwanegol barhau i gael ei gyflwyno yn ystod 2025/26, gan ategu gwasanaethau iechyd galwedigaethol, cymorth gweithwyr a ffisiotherapi presennol sydd wedi bod ar gael ers blynyddoedd. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, hyfforddiant 'peidio cadw'n dawel', ymwybyddiaeth o hunanladdiad ac ôl-drafodaethau digwyddiadau critigol yn ogystal â mwy o adnoddau a gwybodaeth gyfeirio i staff.

Yn ystod 2025/26, cafwyd 68 o achosion o salwch hirdymor yn ymwneud â chyflyrau cyhyrysgerbydol sy'n effeithio ar aelodau uchaf ac isaf y corff, gan arwain at gyfanswm o 3,159 diwrnod wedi'u colli. Mae'r absenoldebau hyn yn aml yn ymwneud ag adfer ar ôl llawdriniaeth a'r gofyniad i weithwyr adennill ffitrwydd, cryfder ac ystod symudiad llawn cyn dychwelyd i rôl weithredol. Lle y bo'n briodol, mae dyletswyddau wedi'u haddasu a phroses dychwelyd yn raddol yn parhau i gael eu defnyddio i alluogi pobl i ddychwelyd i'r gwaith yn gynt ac yn fwy diogel.

### Cymhariaeth Cymru Gyfan

Nifer y diwrnodau sifft cyfartalog a gollwyd y pen ar gyfer pob absenoldeb (tymor byr a hirdymor) ar sail Cymru Gyfan oedd 13.17 diwrnod sifft y pen ar gyfer staff lifrai amser cyflawn, 20.5 diwrnod sifft y pen ar gyfer staff Ystafell Reoli, ac 14.58 diwrnod sifft y pen ar gyfer staff Corfforaethol.

O gymharu â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru, Gogledd Cymru oedd â'r nifer isaf o ddiwrnodau sifft a gollwyd y pen oherwydd absenoldebau

hirdymor a thymor byr ar draws y tri math o ddyletswydd o blith y tri gwasanaeth.

| **Nifer y sifftiau/diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch** | **GTADC** | **GTACGC** | **GTAGC** |
|---|---|---|---|
| Staff lifrai amser cyflawn | 14.96 | 10.48 | 11.66 |
| Staff Ystafell Reoli | 22.83 | 32.08 | 8.19 |
| Staff Corfforaethol | 19.32 | 12.93 | 8.5 |

Noder, mae’r data Cymru Gyfan ar gyfer y cyfnod Ebrill 2024 - Mawrth 2025, gyda'r diweddariad diweddaraf wedi'i gyhoeddi ym mis Hydref 2025. Mae'r set ddata yn adrodd ar ddata absenoldeb ar gyfer staff amser cyflawn, ystafell reoli a chorfforaethol yn unig; nid yw'n cynnwys data ar gyfer staff ar alwad neu wrth gefn.

# Ein Hegwyddor Atal


## 2 Pob Digwyddiad

**Pob Digwyddiad** – Aethpwyd i **6,611** o ddigwyddiadau yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26, sy'n gynnydd o 1.8% o 6,493 o ddigwyddiadau yn ystod 2024-25. Mae hyn hefyd 8.1% yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 6,115.


**Tanau** – Aethpwyd i **2,040** o danau yn ystod 2025-26, sy'n gynnydd o 13.1% o'r 1,804 yr aethpwyd iddynt yn ystod 2025-26, ac 11.7% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 1,826. Mae hyn gan fod nifer y tanau yr aethpwyd iddynt yn Ch1 a Ch2 yn agos at derfyn uchaf yr hyn y byddai'r gwasanaeth yn ei ddisgwyl fel arfer. Yna dychwelodd y lefelau i gyfradd debyg i flynyddoedd blaenorol trwy gydol Ch3 a Ch4.

**Galwadau Diangen** - **3,209**, gostyngiad o 1.7% o'r 3,265 a adroddwyd yn ystod 2024-25, ond 8.9% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 2,948. Er bod lefelau'r galwadau diangen wedi cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd blaenorol, gwelwyd y gostyngiad blynyddol cyntaf ers 2017-18 yn 2025-26.

**GGAau** - Aethpwyd i **1,362** o ddigwyddiadau Galwadau Gwasanaeth Arbennig yn 2025-26, gostyngiad o 4.4% o'r 1,424 yr aethpwyd iddynt yn 2024-25. Mae nifer y digwyddiadau galwadau gwasanaeth arbennig yr aethpwyd iddynt wedi



dangos cynnydd blynyddol dros y blynyddoedd blaenorol, ond gwelwyd y gostyngiad cyntaf ers 2010-11 yn 2025-26.





## 3 Tanau Damweiniol mewn Anheddau (TDAau)


Aethpwyd i **322** o danau damweiniol mewn anheddau yn 2025-26, sy'n ostyngiad o 4.7 o 338 yn 2024-25.

Er bod cynnydd yn nifer y TDAau yr aethpwyd iddynt yn Ch3 2025-26, yn ystod Ch4 dychwelodd y nifer yn unol â hanner cyntaf y flwyddyn, sy'n golygu y parhaodd y nifer blynyddol cyffredinol o danau damweiniol mewn cartrefi i ostwng, ac y gwelwyd y nifer isaf y mae'r gwasanaeth wedi'i gofnodi ar gyfer unrhyw flwyddyn ers 2017-18 yn 2025-26.

Accidental Dwelling Fires by Quarter / Tanau Damweiniol mewn Cartrefi




Accidental Dwelling Fires by Quarter / Tanau Damweiniol mewn Cartrefi fesul Chwarter



Amser ymateb cyfartalog y Gwasanaeth yn ystod 2025-26 (ac eithrio Galwadau Tân Hwyr) oedd 13 munud. Mae hyn yn seiliedig ar yr amser rhwng yr alwad a'r amser y cyrhaeddodd y peiriant tân cyntaf.

Er bod yr amseroedd ymateb cyfartalog yn Ynys Môn a Gwynedd yn ymddangos yn arafach nag ardaloedd eraill, mae hyn yn unol â'r patrymau y byddem yn eu disgwyl oherwydd y seilwaith a'r ddaearyddiaeth yn yr ardaloedd hyn o gymharu â Chonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam, lle mae nifer o orsafoedd amser cyflawn, rhwydweithiau ffyrdd dwysach, pellteroedd byrrach, a mwy o alw trefol.

| County / Sir | ADFs / Tanau Damweiniol mewn Cartrefi | Year on Year / Blwyddyn ar ôl Blwyddyn | Average Response Time / Amser Ymateb ar Gyfartaledd |
|---|---|---|---|
| Anglesey / Ynys Môn | 40 | ↑ 3 | 00:16 |
| Conwy / Conwy | 55 | ↓ -6 | 00:11 |
| Denbighshire / Sir Ddinbych | 53 | ↑ 6 | 00:12 |
| Flintshire / Sir y Fflint | 64 | ↓ -1 | 00:12 |
| Gwynedd / Gwynedd | 48 | ↓ -12 | 00:17 |
| Wrexham / Wrecsam | 55 | ↓ -3 | 00:11 |
| **Total / Cyfanswm** | **315** | **-13** | **00:13** |

Drwy gydol chwarter 4 2025-26, gwelwyd gostyngiad mewn amseroedd ymateb ar draws pob ardal awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru, ac eithrio Sir y Fflint.

| County / Sir | ADFs / Tanau Damweiniol mewn Cartrefi | Year on Year / Blwyddyn ar ôl Blwyddyn | Average Response Time / Amser Ymateb ar Gyfartaledd |
|---|---|---|---|
| Anglesey / Ynys Môn | 12 | ↓ -1 | 00:13 |
| Conwy / Conwy | 10 | ↓ -14 | 00:15 |
| Denbighshire / Sir Ddinbych | 12 | ↓ -2 | 00:14 |
| Flintshire / Sir y Fflint | 16 | ↑ 2 | 00:14 |
| Gwynedd / Gwynedd | 17 | ↓ -1 | 00:18 |
| Wrexham / Wrecsam | 7 | ↓ -13 | 00:09 |
| **Total / Cyfanswm** | **74** | **-29** | **00:14** |

## 4 Prif Achosion Tanau Damweiniol mewn Anheddau


Yn ystod 2025-26 yr achos mwyaf cyffredin o TDCau oedd '**Eitemau llosgadwy yn rhy agos at ffynhonnell wres (neu dân)**', a oedd yn gyfrifol am 30%, neu bron i 1 o bob 3 TDC yr aethpwyd iddynt yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd yn nifer a chyfran y TDCau a achoswyd gan hyn o gymharu â 2024-25. Allan o'r 10 mlynedd diwethaf, 2025-26 oedd â'r nifer uchaf o TDCau (95) a achoswyd gan hyn.

Roedd achosion eraill o TDCau a gynyddodd yn 2025-26 yn cynnwys:

- 'Nam ar offer neu gyfarpar', a gynyddodd o 31 (9% o'r holl TDCau) yn 2024-25, i 34 (11% o'r holl TDCau).
- 'Trin yn ddiofal – oherwydd gwaredu diofal', gyda chynnydd o 18% (5% o'r holl TDCau) yn 2024-25, i **21** (**7%** o'r holl TDCau).


Er gwaethaf hyn, gwelwyd gostyngiad mewn ambell brif achos yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys:


- 'Cyflenwad tanwydd diffygiol – trydan', a ostyngodd o 39 (12% o'r holl TDCau) yn 2024-25 i **35** (**11%** o'r holl TDCau).
- 'Arall', a ostyngodd o 26 (8% o'r holl TDCau) yn 2024-25 i **18** (**6%** o'r holl TDCau).



Wrth adolygu prif achosion Tanau Damweiniol mewn Anheddau ym mhob chwarter trwy gydol 2025-26, gwnaeth **Eitemau llosgadwy yn rhy agos at ffynhonnell wres (neu dân)** achosi 35 o TDAau yn Ch3, sy'n ffigur anarferol o uchel. Yn ystod Ch4, fodd bynnag, gostyngodd hyn i **18** sydd o fewn yr ystod a welir fel arfer mewn unrhyw chwarter.

**Coginio – coginio arall** oedd prif achos TDCau yn Ch4 2025-26, gan gyfrif am 20 (26%) o'r TDCau yr aethpwyd iddynt yn y cyfnod hwn.



**Camau gweithredu hyd yma:**

Mae'r Tîm Atal a'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd wedi bod yn rhagweithiol wrth ddelio â phrif achosion tanau damweiniol mewn anheddau. Mae sawl neges ar y cyfryngau cymdeithasol, fel “Mae Tân yn Lladd” a'r fideos ynghylch peidio â chadw llygad ar fwyd sy’n coginio, wedi'u rhannu ar draws pob platfform.

Mae Tîm Atal GTAGC wedi annog gofalwyr amlasiantaethol a gweithwyr cymorth ar draws y rhanbarth i gofrestru i gael cyngor a llenyddiaeth atal wedi'u targedu yn syth i’w cyfeiriadau e-bost trwy 'Gov Delivery'. Mae hyn wedi galluogi'r Tîm Atal i rannu gwybodaeth bwysig am ddiogelwch yn y gegin/coginio ac i rannu ein gwybodaeth atgyfeirio er mwyn cynhyrchu atgyfeiriadau ar gyfer yr unigolion sy’n wynebu’r risg uchaf.

Mae criwiau tân yn parhau i ddefnyddio data Caerwysg wrth gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach (ADIau), a hynny er mwyn targedu'r rhai dros 65 oed sy’n ystadegol yn fwy tebygol o gael tân yn y gegin.

**Camau Gweithredu Pellach:**

Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn – bu’r tîm atal, asiantaethau partner a staff cymorth amrywiol o bob rhan o'r Gwasanaeth yn cynnal Archwiliadau Diogel ac Iach, gan dargedu'r rhai mwyaf agored i niwed a thynnu sylw at bwysigrwydd peidio â gadael bwyd yn coginio heb oruchwyliaeth a chadw eitemau llosgadwy i ffwrdd o ffynonellau gwres a chyfarpar coginio.

Ar hyn o bryd, mae'r Tîm Atal yn treialu cynnyrch diogelwch popty arloesol o'r enw 'Pippa'. Mae’r teclyn synhwyro bach hwn, sy’n cael ei osod uwchben y popty, yn defnyddio AI i synhwyro’r arwyddion cynnar o wres a thân, gan rybuddio’r preswylydd o gynnydd sydyn mewn tymheredd. Hefyd, gall y teclyn rybuddio aelod o'r teulu neu ofalwr trwy ap ffôn symudol.

## 5 Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau Damweiniol mewn Anheddau


Cafodd **84** o bobl anafiadau mewn **57** o TDCau yn ystod 2025-26. Yn anffodus, cafwyd **dwy** farwolaeth o ganlyniad i TDCau.

Cynyddodd nifer y bobl a anafwyd o ganlyniad i TDC gan 24% yn 2025-26 o 68 yn 2024-25, a chynyddodd nifer y TDCau a achosodd anafiadau gan 7.5% o 53 yn 2024-25.


Y math mwyaf cyffredin o anaf oedd 'Llethu gan nwy, mwg neu fygdarth gwenwynig; mygu', a oedd yn gyfrifol am 39 o'r anafiadau (46%). 'Anawsterau anadlu (ac eithrio Llethu gan nwy, mwg neu fygdarth gwenwynig; mygu)' oedd yr ail fath mwyaf cyffredin o anaf, yn gyfrifol am 18 (21%) arall o'r anafiadau.

Yn ystod 2025-26, dioddefodd cyfran uwch o'r sawl a anafwyd anafiadau Bach (cynnydd o 24% yn 2024-25 i 33% o'r holl anafiadau a adroddwyd yn ystod y flwyddyn). Mewn cyferbyniad, daeth anafiadau difrifol yn llai cyffredin, gan ostwng o bum achos yn 2024-25 i un yn 2025-26.

Fatalities and Casualties from Accidental Fires in Dwellings



Trwy gydol 2025-26, cofnodwyd y gyfran fwyaf o anafiadau o TDCau yn ystod Ch3. Dyma'r cyfnod pan aethpwyd i'r nifer fwyaf o TDCau, fodd bynnag, roedd nifer yr anafiadau a gofnodwyd yn Ch3 yn llawer uwch na'r swm a welir fel arfer o gymharu â nifer y TDCau.
Yn Ch4, gostyngodd nifer y TDCau yr aethpwyd iddynt, gan arwain at lai na hanner nifer y TDCau a arweiniodd at anafiadau fel y gwelwyd yn y chwarter blaenorol (o 21 yn Ch3 i 10 yn Ch4), gyda 12 o anafiadau.




## 6 Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Anheddau


**Synwyryddion:** roedd synwyryddion mwg/gwres yn bresennol mewn **280** (87%) o'r anheddau lle digwyddodd tanau damweiniol yn ystod 2025-26.

Gwnaeth larymau weithredu a seinio rhybudd yn **188** (58%) o'r cartrefi lle digwyddodd tanau damweiniol yn ystod y flwyddyn. O'r 188 o TDCau hyn, cafodd y tân ei gyfyngu i'r ystafell lle y cychwynnodd yn **173** (92%) o'r achosion.


Nid oedd larymau wedi eu gosod mewn **42** (13%) o'r cartrefi lle digwyddodd tanau damweiniol.

O'r 322 o TDCau yr aethpwyd iddynt, cafodd **282** eu cyfyngu i'r ystafell lle cychwynnodd y tân, ac ni chyfyngwyd **40**.
O'r 282 o TDCau a gyfyngwyd i'r ystafell lle cychwynnodd y tân, roedd **173** (**61%**) yn ddigwyddiadau lle roedd larymau wedi'u gosod ac wedi seinio.

Accidental Dwelling Fires confined to room of origin, by smoke alarm activation / Tanau Damweiniol mewn Cartrefi wedi'u cyfyngu i'r ystafell lle cychwynnodd y tân, trwy seinio larwm mwg




Trwy gydol 2025-26, er mai yn Ch3 yr aethpwyd at y nifer fwyaf o TDCau, mae'n werth nodi mai yn Ch3 y gwelwyd y nifer fwyaf o TDCau a gyfyngwyd i'r ystafell lle cychwynnodd y tân, a lle roedd larwm wedi'i osod ac wedi seinio, gan hefyd ddangos y nifer isaf o ddigwyddiadau lle nad oedd larymau wedi'u gosod.
Yn Ch4 dychwelodd nifer y TDCau i lefel a oedd yn fwy cyson â hanner cyntaf y flwyddyn, a gyda chyfrannau tebycach o ran cyfyngu ar danau a larymau'n seinio.




**Camau a gymerwyd i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed o ran tanau yn eu cartrefi:**

Yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26, cwblhaodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) 19,376 o Archwiliadau Diogel ac Iach (ADIau), gan ragori ar y targed blynyddol o 17,500 gan 1,876 o archwiliadau. O'r rhai a gwblhawyd, aseswyd 5,493 o ADIau fel rhai risg uchel, sy'n cynrychioli 28.4% o gyfanswm y gweithgarwch ADI.

Gan gydnabod yr angen i gynyddu cyfran yr ymyriadau risg uchel, mae nifer o fesurau wedi'u rhoi ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys gofyn i griwiau gweithredol flaenoriaethu atgyfeiriadau risg uchel, a GTAGC yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu dull haenu a sgorio risg Cymru Gyfan i gefnogi proses fwy cyson a thargedig o nodi bregusrwydd.

**Gweithgarwch Atal wedi'i Dargedu ar Sail Data**

Yn ystod Chwarter 3, cynhaliodd gorsafoedd Amser Cyflawn (AC) a Chriw Dydd (CD) weithgarwch atal wedi'i dargedu gan ddefnyddio data Caerwysg a rannwyd gan y GIG. Mae'r set ddata hon yn nodi aelwydydd

â phreswylwyr 65 oed a hŷn, gyda haenu ychwanegol ar 75+ ac 80+ oed. Mae'r dull hwn yn galluogi criwiau i dargedu ADIau yn rhagweithiol at grwpiau oedran sydd, yn ystadegol, mewn mwy o berygl o gael eu niweidio gan dân.

**Trefniadau Rhestr Aros Atgyfeirio**
Yn ystod Chwarter 3, tynnwyd ADIau o'r rhestr aros atgyfeirio dros dro fel dull dyrannu. Yn ystod y cyfnod hwn:

- Cwblhawyd atgyfeiriadau risg uchel a chanolig gan Weithwyr Cymorth Diogelwch Risg Uchel (GCDRIau); a
- Chwblhawyd atgyfeiriadau risg isel gan staff Ymateb Diogelwch Dydd Amser Cyflawn (WDSR).

Yn Chwarter 4, adolygwyd y dull hwn. Mae bellach yn ofynnol i griwiau ddefnyddio'r rhestr aros atgyfeirio fel y brif ffynhonnell ar gyfer gweithgarwch ADI, gyda data Caerwysg yn cael ei gadw fel opsiwn eilaidd neu wrth gefn.

Cyflwynwyd y newid hwn mewn ymateb i'r nifer cynyddol o atgyfeiriadau ar y rhestr aros, gan gynnwys nifer a oedd yn hwyr. Mae'r dull diwygiedig yn sicrhau bod gweithgarwch gweithredol yn canolbwyntio ar y rhai yr aseswyd eu bod yn wynebu'r risg fwyaf yn y gymuned, yn hytrach na blaenoriaethu ADIau risg is i gyflawni targedau rhifiadol. Mae hyn yn mynd i'r afael â phryderon bod trefniadau blaenorol wedi arwain at flaenoriaethu swm gweithgarwch dros effaith ac ansawdd ar sail risg.

**Goruchwyliaeth Atal Barhaus**
Mae gweithgaredd targedu yn parhau i gael ei wneud yn dilyn digwyddiadau, gydag ymatebion atal ar ôl digwyddiad yn gymesur â lefel y risg a nodwyd.
Mae'r Tîm Atal yn parhau i oruchwylio'r gwaith o gyflawni ADIau trwy gyfarfodydd monitro wythnosol, gan alluogi perfformiad a risgiau sy'n dod i'r amlwg i gael eu rheoli'n weithredol.

Mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd (GLlY) yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol i hyrwyddo'n rhagweithiol negeseuon diogelwch tân, ffyrdd a dŵr ar draws pob platfform cyfryngau priodol, gan gefnogi amcanion atal a diogelwch cyhoeddus ehangach.

**Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc:**

**Ffenics**

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyrsiau a gynhaliwyd | 4 | 4 | 6 | 6 |
| Nifer y plant a phobl ifanc | 33 | 29 | 55 | 55 |
| % y gwelliant mewn ymddygiad a adroddwyd | 80% | 78% | 66% | 73% |
| % adborth cadarnhaol | 100% | 100% | 100% | 100% |
| % Agored Cymru | 70% | 70% | 62% | 92% |
| % y plant a phobl ifanc a gwblhaodd y cwrs | 88% | 86% | 67% | 92% |

Mae gwaith yn mynd rhagddo ledled Cymru i alluogi rhaglen Ffenics i gefnogi'r gwaith o gyflawni Fframwaith Ymyriadau Cynnar Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (CCPT), yn unol â blaenoriaethau atal ac ymyrraeth gynnar cenedlaethol.

**Ymddiriedolaeth y Brenin**

Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau angenrheidiol sy'n ymwneud â Dyfarniad Ymddiriedolaeth y Brenin bellach ar waith, ac mae'r Gwasanaeth wedi cyflawni statws canolfan achrededig.

**Ymweliadau Addysgol ag Ysgolion yn Ch4**

Ysgolion yr Ymwelwyd â Nhw = 9
Disgyblion = 810

Cwblhawyd Hyfforddiant Rheoli Adnoddau Tîm (RhAT) yn Ch4.

**Cadetiaid Tân**


Mae'r ddarpariaeth Cadetiaid Tân yn parhau i weithredu mewn unedau yn Amlwch, y Bala, y Waun a Thywyn.

Mae Uned Cadetiaid Tân Porthaethwy ar gau dros dro yn dilyn ymadawiad arweinydd yr uned o'r Gwasanaeth. Mae datganiadau o ddiddordeb wedi'u derbyn gan staff gweithredol eraill, ac mae opsiynau i ailsefydlu'r uned wrthi'n cael eu harchwilio.


## 7 Galwadau Gwasanaeth Arbennig (GGAau)

Aethpwyd i gyfanswm o **1,362** o alwadau gwasanaeth arbennig (gan gynnwys Gwrthdrawiadau ar y Ffordd) yn 2025-26, sydd 4.4% yn is na'r 1,424 yr aethpwyd iddynt yn 2024-25.

Er bod nifer y digwyddiadau 'Heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd' wedi gostwng gan 8.8%, gyda **1,065** o ddigwyddiadau wedi'u mynychu, bu cynnydd o 16% yn nifer y Gwrthdrawiadau ar y Ffordd yr aethpwyd iddynt, gyda **297** o ddigwyddiadau wedi'u mynychu yn 2025-26 o gymharu â 249 yn ystod 2024-25.




Yn ystod 2025-26, ni wnaeth nifer y digwyddiadau GGA yr aethpwyd iddynt ddilyn yr un duedd ag a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Yn 2023-24 a 2024-25, gwelwyd cynnydd mawr yn ystod Ch3 yn nifer y GGAau yr aethpwyd iddynt nad oeddent yn Wrthdrawiadau ar y Ffordd. Fodd bynnag, yn 2025-26, er bod cynnydd wedi'i weld o hyd yn ystod Ch3 yn nifer y digwyddiadau GGA yr aethpwyd iddynt nad oeddent yn Wrthdrawiadau ar y Ffordd, roedd hyn yn gynnydd llai nag a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol.
Mewn cyferbyniad fodd bynnag, yn Ch3, cynyddodd nifer y GGAau yr aethpwyd iddynt a oedd yn Wrthdrawiadau ar y Ffordd i 92, sydd y tu hwnt i'r lefelau a ddisgwylid fel arfer mewn chwarter. Yn Ch4, gostyngodd hyn i 58, sydd o fewn yr ystod y gellid ei ddisgwyl fel arfer.




Roedd y prif gategorïau o GGAau yn ystod 2025-26 (ac eithrio Gwrthdrawiadau ar y Ffordd) yn cynnwys:

- **545** o ddigwyddiadau 'Cynorthwyo asiantaethau eraill' – cynnydd o 2.4% o'r 532 a gofnodwyd yn ystod 2024-25.
- **103** o ddigwyddiadau 'Cynorthwyo i fynd i mewn/allan' – cynnydd o 33.8% o'r 77 a gofnodwyd yn ystod 2024-25.
- **79** o ddigwyddiadau 'Achub/rhyddhau personau arall' – gostyngiad o 14.1% o'r 92 a gofnodwyd yn ystod 2024-25.
- **71** o ddigwyddiadau 'Rhyddhau o Lifft' – gostyngiad o 9% o'r 78 a gofnodwyd yn ystod 2024-25.

Roedd y prif gategorïau o GGAau (ac eithrio Gwrthdrawiadau ar y Ffordd) a gofnodwyd yn ystod Ch4 2025-26 yn cynnwys:

- **149** o ddigwyddiadau 'Cynorthwyo asiantaethau eraill' – gostyngiad o 2.6% o'r 153 a gofnodwyd yn ystod Ch3.

- **30** o ddigwyddiadau 'Cynorthwyo i fynd i mewn/allan' – cynnydd o 15.4% o'r 26 a gofnodwyd yn ystod Ch3.

Parhaodd y ddau gategori hwn i fod y prif achosion o ddigwyddiadau GGA yr aethpwyd iddynt trwy gydol pob chwarter yn 2025-26.

**Camau gweithredu hyd yn hyn:**

**Diogelwch ar y Ffyrdd**

**Stori Olivia**
Yn ystod Chwarter 4, cyflwynwyd Stori Olivia, sef ymyrraeth diogelwch ar y ffyrdd, i 970 o fyfyrwyr coleg, gan gefnogi ymgysylltu wedi'i dargedu â phobl ifanc ar y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio ffyrdd ac ymddygiad gyrwyr.

**Tîm Ymgyrch Atal**
Mae'r tîm Ymgyrch Atal yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru (HGC) i addysgu gyrwyr am y Pum Achos Angheuol o wrthdrawiadau traffig ffyrdd difrifol. Yn ystod Chwarter 4:

- Gwnaed 1,640 o gyflwyniadau ar ochr y ffordd; a
- Daethpwyd ag erlyniadau gyrru yn erbyn 79 o yrwyr yn dilyn gweithgarwch gorfodi.

**BikerDown**
Cyflwynwyd un sesiwn Biker Down yn ystod Chwarter 4, gan ymgysylltu â 17 o gyfranogwyr. Mae'r rhaglen yn parhau i gynnig cyngor diogelwch arbenigol gyda'r nod o leihau anafiadau/marwolaethau sy'n gysylltiedig â beiciau modur.

**Gweithgareddau Diogelwch Ffyrdd Parhaus Eraill**
Yn ogystal â'r uchod, mae GTAGC yn parhau i ymgymryd ag ystod o fentrau diogelwch ar y ffyrdd, gan gynnwys:

- Gweithio mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru ar lansio Ymgyrch Apex, sy'n cynnwys cyflwyno marciau ffyrdd PRIME newydd ar ddwy ffordd yng Ngogledd Cymru i helpu beicwyr modur i lywio troeon yn ddiogel; a
- Datblygu adnoddau ymgysylltu wedi'u targedu i gefnogi gyrwyr hŷn, gan gydnabod y proffiliau risg sy'n newid o fewn y grŵp hwn.

**Diogelwch Dŵr – Diweddariad Chwarter 4**

**Cynllun Peilot Diogelwch Dŵr**
Lansiwyd Cynllun Peilot Diogelwch Dŵr GTAGC / Nofio Cymru / Ffit Cymru ar 12 Chwefror 2026. Daeth llawer o bobl i’r digwyddiad lansio, gyda 30 o ddisgyblion yn cymryd rhan yn y fenter Nofio Diogel.

Roedd y sesiwn yn cynnwys rhaglen lawn o weithgareddau ar ochr y pwll ac yn y pwll, gan gyflwyno egwyddorion diogelwch dŵr allweddol i ddisgyblion Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4, gan gynnwys:

- Stopio a meddwl
- Aros gyda’ch gilydd
- Arnofio
- Ffonio 999 mewn argyfwng

Ers ei lansio, mae'r cynllun peilot wedi ymgysylltu â chyfanswm o 93 o ddisgyblion.

Y ffocws cychwynnol yw sefydlu model cyflawni cryf yn Sir Conwy, cyn ei gyflwyno'n ehangach ar draws Gogledd Cymru.

Mae cynlluniau ar waith ar hyn o bryd i gynnal digwyddiad Nofio Diogel yn Ynys Môn fel rhan o’r Wythnos Deall Peryglon Dŵr ddiwedd mis Ebrill. Bydd hyn yn cefnogi gwaith cydweithredol gydag ysgolion Ynys Môn yn y dyfodol i ymgorffori'r neges *Arnofio i Fyw* ymhellach.

Mae gohebiaeth fewnol wedi'i chyhoeddi i recriwtio staff ychwanegol i gefnogi'r cynllun peilot, gyda dros 10 aelod o staff yn mynegi diddordeb hyd yma. Disgwylir i'r hyfforddiant ar gyfer staff sy'n cymryd rhan ddechrau yn gynnar ym mis Mai.

**Ymgyrch Deall Peryglon Dŵr**

Fel rhan o Wythnos Deall Peryglon Dŵr, mae'r gweithgareddau canlynol wedi'u cynllunio:

- Ymgysylltu â chriw lleol ym Metws-y-Coed, Llangollen, Llanberis, a'r Rhyl ar 2 Mai;
- Ymgysylltu mewn ysgolion yn Ynys Môn yn ystod yr un wythnos; ac
- Ymgyrch cyfryngau cymdeithasol wythnos o hyd yn canolbwyntio ar negeseuon ymwybyddiaeth diogelwch dŵr.

**Cynhadledd ROSPA**

Mae crynodeb wedi'i gyflwyno ar y cyd â Nofio Cymru mewn ymateb i gais i gyflwyno yng Nghynhadledd ROSPA yn Birmingham ym mis Hydref. Mae'r cyflwyniad yn adlewyrchu gwaith partneriaeth a dysgu a rennir mewn perthynas â gweithgarwch diogelwch dŵr ac atal.

**PentrePeryglon**

Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu adran ymwybyddiaeth dŵr PentrePeryglon. Mae GTAGC yn ariannu tanc arddangos diogelwch dŵr, yn debyg i'r un a ddefnyddir gan y Gwasanaeth ar hyn o bryd.
Mae cyfarfod gyda PentrePeryglon wedi'i drefnu ar gyfer 14 Ebrill 2026 i gefnogi cydweithio a datblygu'r gofod diogelwch dŵr pwrpasol.

**River and Sea Sense**
Mae digwyddiad River and Sea Sense ar y cyd wedi'i gynllunio ar gyfer 25 Gorffennaf 2026 i gyd-daro â Diwrnod Atal Boddi'r Byd. Bydd gweithgareddau'n cael eu cynnal ar safleoedd dŵr mewndirol lleol, gan gynnwys:

- Llyn Tegid
- Llyn Padarn
- Llangollen

Bydd y digwyddiad hwn yn cefnogi negeseuon diogelwch dŵr cydgysylltiedig, yn seiliedig ar le, mewn partneriaeth â budd-ddeiliaid perthnasol.

# 8 Archwiliadau Diogel ac Iach


Cwblhawyd cyfanswm o **19,376** o ADIau drwy gydol 2025-26. O'r rheini:

- Roedd **5,493** (28.3%) yn archwiliadau blaenoriaeth Uchel, gyda **2,960** (53.9% o'r archwiliadau blaenoriaeth uchel a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner.
- Roedd **3,839** (19.8%) yn archwiliadau blaenoriaeth Ganolig, gyda **427** (11.1% o'r archwiliadau blaenoriaeth ganolig a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner.
- Roedd **10,004** (51.6%) yn archwiliadau blaenoriaeth Isel, gyda **530** (5.3% o'r archwiliadau blaenoriaeth isel a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner.


Cafodd cyfanswm o **3,917** o ADIau a gwblhawyd eleni eu cyfeirio at y Gwasanaeth gan Asiantaeth – mae hyn yn cyfateb i 20.2% o'r ADIau a gwblhawyd.

Er bod gostyngiad o **3.2%** wedi bod yng nghyfanswm yr ADIau a gwblhawyd yn 2025-26 o gymharu â'r 20,020 a gwblhawyd yn 2024-25, bu cynnydd yn nifer (5,493 yn 2025-26 o gymharu â 5,088 yn 2024-25) a chyfran (28.3% o'r holl ADIau a gwblhawyd yn 2025-26, o gymharu â 25.4% o'r holl ADIau a gwblhawyd yn 2024-25) yr ADIau **blaenoriaeth uchel** a gwblhawyd.







Yn ystod Ch4 2025-26, cwblhawyd cyfanswm o **4,441** o Archwiliadau Diogel ac Iach, sy'n is na'r 5,111 a gwblhawyd yn ystod y chwarter blaenorol (Ch3 2025-26), fodd bynnag, cofnodwyd bod **37.2%** (1,654 allan o 4,441) o'r rhain yn archwiliadau blaenoriaeth Uchel, sy'n gynnydd o'r 27.2% (1,389 allan o 5,111) o archwiliadau blaenoriaeth uchel a gwblhawyd yn Ch3 2025-26.





Cynhaliwyd cyfanswm o 1,192 (8.0%) o ADIau yn Gymraeg yn ystod chwarteri 1 – 3.

Yn ystod 2025-26, cwblhawyd **88%** o'r holl ADIau o fewn eu dyddiad cwblhau targed.
O'r ADIau a gwblhawyd yn ystod 2025-26 a oedd yn archwiliadau blaenoriaeth Uchel, cwblhawyd 67% o fewn eu dyddiad cwblhau targed.

All Checks by Days Over Target Completion / Pob Gwiriad yn ôl Dyddiau Dros Gwblhau Targed





High Priority Checks by Days Over Target Completion / Gwiriadau Blaenoriaeth Uchel yn ôl Dyddiau Dros Gwblhau Targed





Yn ystod chwarter 4, ar draws holl flaenoriaethau'r Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd, cwblhawyd 83% o fewn y dyddiad cwblhau targed. Cwblhawyd 64% o'r Archwiliadau Diogel ac Iach Blaenoriaeth Uchel a gwblhawyd yn chwarter 4 o fewn y targed, sy'n welliant o gymharu â Ch3 pan gwblhawyd 62% o'r archwiliadau blaenoriaeth uchel o fewn y targed.

All Checks by Days Over Target Completion / Pob Gwiriad yn ôl Dyddiau Dros Gwblhau Targed




High Priority Checks by Days Over Target Completion / Gwiriadau Blaenoriaeth Uchel yn ôl Dyddiau Dros Gwblhau Targed




**Camau gweithredu hyd yma:**

**Archwiliadau Diogel ac Iach (ADIau)**

Yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26, cwblhaodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) 19,376 o Archwiliadau Diogel ac Iach (ADIau). Rhagorodd hyn ar y targed blynyddol o 17,500 gan 1,876 o archwiliadau.

O gyfanswm yr ADIau a gwblhawyd, aseswyd 5,493 fel rhai risg uchel, sy'n cynrychioli 28.4% o gyfanswm y gweithgarwch ADI. Mae nifer o fesurau wedi'u gweithredu i wella cyfran yr ADIau risg uchel sy'n cael eu cwblhau, gan gynnwys:

- Blaenoriaethu atgyfeiriadau risg uchel ar gyfer criwiau gweithredol; a
- Chyfrannu at ddatblygu model haenu risg Cymru Gyfan i wella cysondeb a thargedu.

**Gweithgarwch Atal wedi'i Dargedu**

Yn ystod Chwarter 3, cynhaliodd gorsafoedd Amser Cyflawn (AC) a Chriw Dydd (CD) weithgarwch atal wedi'i dargedu gan ddefnyddio data Caerwysg (a rannwyd gan y GIG). Mae'r set ddata hon yn nodi aelwydydd sydd â phreswylwyr 65+, 75+, ac 80+ oed, gan alluogi criwiau i ganolbwyntio'r ddarpariaeth ADI ar grwpiau demograffig y gwyddom eu bod yn wynebu perygl uwch o dân.

**Rheoli'r Rhestr Aros Atgyfeirio**

Yn Chwarter 3, tynnwyd ADIau o'r rhestr aros atgyfeirio dros dro fel dull cyflawni. Yn ystod y cyfnod hwn:

- Cwblhawyd atgyfeiriadau risg uchel a chanolig gan Weithwyr Cymorth Diogelwch Risg Uchel (GCDRIau); a
- Chwblhawyd atgyfeiriadau risg isel gan staff Gwledig System Dyletswydd Amser Cyflawn (WDSR).

Yn Chwarter 4, adolygwyd y dull hwn. Mae bellach yn ofynnol i griwiau:

- Ddefnyddio'r rhestr aros atgyfeirio fel y brif ffynhonnell i nodi gweithgarwch ADI; a
- Defnyddio data Caerwysg fel opsiwn eilaidd neu wrth gefn yn unig.

Gweithredwyd y newid hwn mewn ymateb i dwf rhestrau aros, gan gynnwys nifer o atgyfeiriadau hwyr. Mae'r dull diwygiedig yn rhoi mwy o bwyslais ar dargedu'r rhai yr aseswyd eu bod yn wynebu'r perygl mwyaf, yn hytrach na chanolbwyntio ar ADIau risg is i fwrw targedau rhifiadol. Mae hyn yn ymateb i bryderon bod y trefniadau blaenorol yn canolbwyntio ar swm y gweithgarwch yn hytrach nag ansawdd ac effaith ar sail risg.

**Goruchwyliaeth ar ôl Digwyddiad a Goruchwyliaeth Barhaus**

Mae gweithgarwch targedu'n parhau i gael ei gynnal yn dilyn digwyddiadau, gyda lefelau amrywiol o ymateb yn dilyn digwyddiad yn dibynnu ar risg a chyd-destun.

Mae'r Tîm Atal yn parhau i fonitro gweithgarwch ADI trwy gyfarfodydd wythnosol, gan sicrhau y goruchwylir perfformiad ac yr ymatebir i faterion sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd (GLIY) yn parhau i weithio'n agos gyda'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol i hyrwyddo diogelwch tân, diogelwch ar y ffyrdd a diogelwch dŵr yn rhagweithiol ar draws yr holl gyfryngau perthnasol.

**Rhestr Aros**

| Blaenoriaeth | O fewn y Targed | Tu allan i'r Targed | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Uchel | 295 | 415 | **710** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Canolig** | 96 | 86 | **182** |
| **Isel** | 132 | 22 | **154** |
| **Cyfanswm** | **523** | **523** | **1,046** |

Mae'r rhestr aros ADI yn parhau i fod yn destun risg i'r sefydliad, yn enwedig mewn perthynas ag atgyfeiriadau risg uchel hwyr. Fodd bynnag, mae mesurau lliniaru ar waith, ac mae nifer cyffredinol yr atgyfeiriadau bellach yn lleihau bob chwarter.

Atgyfeiriadau Rhestr Aros fesul Chwarter

- Ch2: 1,620
- Ch3: 1,479
- Ch4: 1,046

Ar ddiwedd Chwarter 4, roedd 1,046 o atgyfeiriadau ar ôl ar y rhestr aros. Mae hyn yn ostyngiad o 433 o atgyfeiriadau o gymharu â Chwarter 3.

Ar hyn o bryd mae'r rhestr aros yn cael ei rheoli ar y cyd gan:

- Griwiau gweithredol AC a CD;
- GCDRIau;
- Staff WDSR; a
- Staff sy'n gweithio ar ddyletswyddau wedi'u haddasu.

Dylid nodi yr effeithiwyd ar gapasiti staffio yn ystod Chwarter 3, gydag:

- Un GCDRI wedi'i ddyrchafu i rôl Rheolwr Atal; a
- Dau GCDRI ar absenoldeb salwch hirdymor.

Mae hyn wedi cael effaith ar lefelau cwblhau ADIau yn ystod Chwarter 4.


I liniaru hyn, anogwyd staff WDSR i gynyddu nifer yr ADIau a gynhelir dros y ffôn, ac mae'r holl wylfeydd AC a CD bellach wedi cael cais ffurfiol i ymgymryd ag ADIau risg canolig ac uchel o'r rhestr aros atgyfeirio.


# Ein Hegwyddor Diogelu

## 9 Galwadau Diangen


Aethpwyd i gyfanswm o **3,209** o alwadau diangen trwy gydol 2025-26, sy'n ostyngiad o 1.7% o 3,265 yn 2024-25. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys galwadau diangen yr aethpwyd iddynt ar draws pob math o eiddo.


Mae cynnydd o 1.6% wedi'i gofnodi yn nifer y Galwadau Diangen Diffuant yr aethpwyd iddynt, i fyny o 1,276 i **1,296**.
Mae gostyngiad i'w weld mewn Galwadau Diangen Maleisus, a ostyngodd gan 18.8% o 64 i **52**, a hefyd mewn digwyddiadau Larwm Tân Oherwydd Cyfarpar, a ostyngodd gan 3.3% o 1,925 i **1,861**.







Trwy gydol 2025-26, roedd nifer y galwadau diangen yr aethpwyd iddynt yn ystod Ch2 a Ch3 yn uwch nag yn Ch1 a Ch4, sy'n debyg i'r patrwm a welwyd trwy gydol 2024-25.







## 10 Galwadau System Larwm Awtomatig (SLA) Masnachol

Cafwyd **1,601** o alwadau SLA Masnachol yn ystod 2025-26. Dim ond **pump** o'r digwyddiadau yr aethpwyd iddynt. Mae nifer y galwadau SLA masnachol a dderbyniwyd wedi dangos gostyngiad parhaus trwy gydol 2025-26.



Incidents Attended / Digwyddiadau yr Aethpwyd Atynt
2000
1500
1000
500
0
1473
1468
1579
1893
1596
20
17
8
15
5
2021/22
2022/23
2023/24
2024/25
2025/26
Financial Year / Blwyddyn Ariannol
Attended / Yr aethpwyd atynt
Not attended / Nad aethpwyd atynt



Commercial Automatic Fire Alarm (AFA) Calls / Galwadau System Larwm Awtomatig Masnachol
Incidents / Digwyddiadau
600
500
400
300
200
100
0
329
439
411
400
454
478
535
426
417
406
401
372
2
3
2
1
4
2
7
2
1
1
2
1
Q1
Q2
Q3
Q4
Q1
Q2
Q3
Q4
Q1
Q2
Q3
Q4
2023/24
2024/25
2025/26
Financial Year and Quarter / Blwyddyn Ariannol a Chwarter Ariannol
Attended / Yr aethpwyd atynt
Not attended / Nad aethpwyd atynt

## 11 Galwadau SLA Ysbytai

Derbyniwyd **424** o alwadau SLA Ysbytai drwy gydol 2025-26, sy'n gynnydd o 17.8% o 360 yn ystod 2024-25. O'r galwadau SLA a dderbyniwyd yn 2025-26, ni fynychwyd 274 (64.6%). Er gwaethaf y cynnydd yn nifer y galwadau, mae'r gyfran na fynychwyd wedi aros yn sefydlog, yn agos i'r 64% yn y flwyddyn flaenorol.

Er bod cyfanswm nifer y galwadau SLA Ysbytai a dderbyniwyd trwy gydol y flwyddyn gyfan yn gynnydd ar flynyddoedd blaenorol, gyrrwyd hyn i raddau helaeth gan niferoedd uwch yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, ac yn enwedig yn ystod Ch2 pan dderbyniwyd 127. Yn ystod Ch3 a Ch4, gostyngodd nifer y galwadau SLA Ysbytai yn sylweddol, gyda Ch4 yn gweld cyfanswm o 82 o alwadau SLA Ysbytai.








**Camau a gymerwyd hyd yma – Ysbytai:**


Mae nifer y digwyddiadau a fynychwyd yn parhau'n isel, a hynny oherwydd cydweithrediad parhaus rhwng GTAGC a BIPBC, gyda GTAGC bellach wedi dechrau cyfundrefn archwilio gylchol ar draws yr ystâd er mwyn cadarnhau trefniadau gweithio ac i sicrhau mai'r amgylcheddau sydd â'r risg fwyaf sy'n cael eu harchwilio. Mae Amddiffyn wedi dechrau fframwaith archwilio cynhwysfawr wedi'i strwythuro'n broffesiynol sy'n rhoi sylw i ddogfennaeth yn ymwneud â phrofi, driliau a gweithgareddau cynnal a chadw. Mae'r fframwaith yn cwmpasu cydymffurfiaeth reoleiddiol, sicrwydd gweithredol, ac adrodd ar sail tystiolaeth.

## 12 CEF Berwyn

Cafodd **56** o brif danau eu cynnau yn fwriadol yn CEF Berwyn yn y cyfnod adrodd - mae hyn yn gynnydd o 17% (o 48 o brif danau a gofnodwyd yn ystod 2024-25). Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn digwyddiadau o Ch3, gyda Ch4 yn gweld 5 tân (y nifer isaf a adroddwyd mewn unrhyw chwarter ers Ch2 2023-24).




Appliance Time Committed / Amser wedi'i Ymrwymo i Beiriannau
Incidents Attended / Digwyddiadau yr Aethpwyd Atynt
9
10
13
5
3
2
9
4
1
13:31
16:05
20:21
05:48
05:04
03:01
10:17
05:49
May 2025 / Mai 2025
June 2025 / Mehefin 2025
July 2025 / Gorffennaf 2025
August 2025 / Awst 2025
September 2025 / Medi 2025
October 2025 / Hydref 2025
November 2025 / Tachwedd 2025
January 2026 / Ionawr 2026
March 2026 / Mawrth 2026

**Camau a gymerwyd hyd yma – CEF Berwyn**

Mae nifer y digwyddiadau yn CEF Berwyn yn parhau i amrywio, sy’n adlewyrchu ymddygiad addasol unigolion sy'n manipiwleiddio neu’n ailbwrpasu dyfeisiau electronig yn fwriadol i greu ffynonellau tanio. Ar ôl cyflwyno cynnyrch fepio diwygiedig, a arweiniodd i ddechrau at ostyngiad sylweddol mewn digwyddiadau cysylltiedig, bu newid dilynol yn y dulliau a ddefnyddir i gychwyn tanau. Mae hyn wedi cynnwys defnydd parhaus o fodelau fepio hŷn, datgymalu gwaelodion tegelli, ac yn fwy diweddar, ymdrechion i ymyrryd â dyfeisiau fepio "gwrthsefyll ymyrraeth" newyddach.

Mae'r risgiau hyn sy'n dod i'r amlwg wedi cael eu huwchgyfeirio i wneuthurwyr y dyfeisiau, sydd ar hyn o bryd yn cymryd camau unioni i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd a chryfhau nodweddion diogelwch y cynnyrch ymhellach.

Mae dadansoddiad o ddata digwyddiadau hefyd yn dangos patrwm tymhorol, gyda digwyddiadau’n digwydd yn amlach ar ddiwrnodau penodol o'r wythnos. Mae'r rhain yn cyd-fynd â chyfnodau pan mae unigolion yn derbyn taliadau ac mae angen iddynt setlo dyledion, yn fwyaf cyffredin ar ddydd Iau a dydd Gwener. Mewn rhai achosion, mae tanau’n cael eu cynnau’n fwriadol fel modd o osgoi ad-dalu dyled neu i gael eu hadleoli o fewn y sefydliad. Wrth i ddulliau tanio presennol gael eu lliniaru neu eu dileu, disgwylir y bydd ymdrechion pellach i nodi ffynonellau tanio amgen yn parhau.

Mae adolygiad wedi'i gwblhau o Safonau Anfon Allan Gosodedig (SAAG) peiriannau pwmpio a swyddogion a aseiniwyd i ymateb i achosion tân a gadarnhawyd yn yr adeilad, wedi'i lywio gan y data digwyddiadau ar gyfer y 12 mis diwethaf. Ystyriwyd yr ystod o ddigwyddiadau, amseroedd y galwadau, a’r amrywiaeth o ffynonellau tanio. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylai'r lefelau presennol o adnoddau a ddyrennir ar gyfer pob digwyddiad aros yr un fath, er y gostyngiad yn nifer y digwyddiadau. Fodd bynnag, bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu'n fanwl er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn lleihau'r risg o niwed i unigolion tra'n sicrhau bod yr adnoddau sy’n cael eu rhoi ar gael yn gymesur â'r risgiau.

Bydd y Gwasanaeth yn parhau i weithio mewn partneriaeth agos i nodi ac ymateb i ddulliau tanio sy'n dod i'r amlwg. O ystyried y sbardunau sylfaenol, disgwylir y bydd nifer y digwyddiadau’n parhau i godi a gostwng dros amser, sy’n golygu bod angen monitro, asesu risg, a llunio strategaethau atal addasol yn barhaus.

# Ein Hegwyddor Ymateb

**13 Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad (SDAA)**
Mae'r tabl isod yn dangos faint o bympiau oedd ar gael ar gyfartaledd ar gyfer pob Gorsaf SDAA rhwng 06:00 a 18:00. Mae'r argaeledd wedi'i rannu fesul mis, ac yn dangos argaeledd yn ystod yr wythnos (Llun-Gwener) ac ar benwythnosau/gwyliau banc.

Mae'r tabl yn cynrychioli'r holl wylfeydd SDAA nad ydynt wedi'u lleoli mewn gorsafoedd amser cyflawn neu griw dydd.

| Argaeledd Gorsafoedd SDAA ar Gyfartaledd 06:00-18:00 | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Diwrnod/Mis** | Ebr | Mai | Meh | **Ch1** | Gorff | Awst | Medi | **Ch2** | Hyd | Tach | Rhag | **Ch3** | Ion | Chwef | Maw | **Ch4** | **Blwydd yn Gyfan** |
| **Llun-Gwener** | 6 | 6 | 5 | **6** | 6 | 4 | 6 | **5** | 6 | 7 | 7 | **6** | 7 | 7 | 6 | **7** | **6** |
| **Penwythnos (gan gynnwys Gwyliau Banc)** | 14 | 14 | 12 | **13** | 11 | 12 | 12 | **12** | 12 | 11 | 9 | **11** | 11 | 11 | 10 | **11** | **12** |
| **Cyfartaledd Cyffredinol** | 9 | 9 | 7 | **8** | 7 | 7 | 7 | **7** | 7 | 8 | 8 | **8** | 9 | 8 | 7 | **8** | **8** |
| **2024/25** | 7 | 7 | 6 | **7** | 6 | 7 | 6 | **6** | 6 | 7 | 9 | **7** | 10 | 9 | 9 | **9** | **7** |

Sylwch fod niferoedd sydd ar gael wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

Mae'r tabl isod yn adlewyrchu nifer y dechreuwyr a'r ymadawyr â'r SDAA yn ystod chwarter dau, o gymharu â'r un chwarter y llynedd. Mae llawer o'r rhai a adawodd yr SDAA y chwarter hwn wedi symud i'r System Dyletswydd Amser Cyflawn (SDAC).

| Blwyddyn | Dechreuwy r | Ymadawy r | Nifer y Swyddi ar Ddiwedd y Flwyddyn | Nifer y Gweithwyr (un rôl yn unig) |
|---|---|---|---|---|
| **Ebrill 2024 – Mawrth 2025** | 86 | 65 | 487 | 425 |
| **Ebrill 2025 – Mawrth 2026** | 88 | 71 | 512 | 427 |
| **+/-** | **2** | **6** | **25** | **2** |


**Dechreuwyr** – nifer y dechreuwyr SDAA ym mhob chwarter. Nid yw hyn yn cynnwys contractau eilaidd.

**Ymadawyr** - nifer yr ymadawyr â'r SDAA ym mhob chwarter. Nid yw hyn yn cynnwys contractau eilaidd, na'r rhai sy'n symud i'r SDAC.

**Nifer y Swyddi ar Ddiwedd y Chwarter** – nifer y swyddi SDAA sydd wedi'u llenwi, gan gynnwys y rhai sydd â mwy nag un rôl.

**Nifer y Gweithwyr (un rôl yn unig)** – nifer yr unigolion sydd ar yr SDAA yn unig h.y., y rhai nad oes ganddynt ddwy rôl yn y Gwasanaeth.

## 14 Cynllun Argaeledd 18 Pwmp




| | Lleiafswm Argaeledd a gyflawnwyd | Lleiafswm Argaeledd heb ei gyflawni |
|---|---|---|
| **Llun-Gwener** | 252 | 1 |
| **Penwythnosau/Gwyliau Banc** | 112 | 0 |

Roedd argaeledd offer yn ystod y dydd yn 2025-26 yn gyson uwch na'r targed gofynnol, gydag un eithriad yn digwydd ar un diwrnod o'r wythnos yn Chwarter 2.
Er gwaethaf y gostyngiad dros dro o dan y lefel ofynnol o 18 pwmp yn ystod y dydd ar y dyddiad hwnnw, roedd digon o gapasiti ledled y Gwasanaeth, gyda'r holl ardaloedd o fewn y Cynllun Grŵp 16 yn meddu ar gapasiti priodol.


## 16 Technolegau sy'n Dod i'r Amlwg

Wrth i dechnoleg ddatblygu a'n dibyniaeth ni fel cymdeithas arni gynyddu, mae wedi dod yn amlwg bod risgiau newydd a chymhleth yn wynebu ein Gwasanaeth Tân. Gall technolegau sy'n dod i'r amlwg fod ar amrywiaeth o ffurfiau, gan gynnwys pethau fel:


- Cerbydau Trydan
- Ffermydd Gwynt
- Dyfeisiau sy'n cynnwys Batris Ïonau Lithiwm

Gan nad yw llawer o'r technolegau hyn wedi'u cynnwys ar hyn o bryd o fewn System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) y Swyddfa Gartref, cynhelir chwiliadau geiriau allweddol ar logiau digwyddiadau er mwyn dod o hyd i'r digwyddiadau perthnasol. Yn dilyn trosglwyddiad o fewn y llywodraeth, lle symudodd y cyfrifoldeb am Dân o'r Swyddfa Gartref i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG), mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan MHCLG a Gwasanaethau Tân ac Achub ledled y DU i integreiddio'r technolegau hyn â'r system cofnodi digwyddiadau newydd, sef FaRDaP (Platfform Data Tân ac Achub). Bydd angen parhau i ddefnyddio chwiliadau geiriau allweddol i gasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau a gofnodwyd cyn i FaRDaP gael ei gyflwyno.


Mae'r crynodeb canlynol yn dangos nifer y digwyddiadau yr aethpwyd iddynt yn ystod 2025-26, lle nodwyd technoleg benodol sy'n dod i'r amlwg yng nghofnodion y digwyddiad. Mae hyn yn cynnwys GGAau ond yn eithrio tanau bwriadol.



Er bod gan gerbydau Trydan a cherbydau Hybrid le amlwg yn y ffigurau uchod ar gyfer 2025-26, mae'r siart ganlynol yn dangos nad oedd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau hyn yn alwadau tân.




Wrth adolygu'r digwyddiadau yr aethpwyd iddynt yn ystod Ch4 2025-26, mae'r data'n dangos yr un prif gategorïau o dechnoleg sy'n dod i'r amlwg, fel y gwelwyd trwy gydol y flwyddyn.





D.S. Mewn rhai achosion, mae'r achos wedi'i dybio yn hytrach na'i gadarnhau oherwydd natur y digwyddiad.

# Ein Hegwyddor Amgylchedd

**15 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau**

Cofnodwyd **501** o danau glaswelltir, coetir a chnydau drwy gydol 2025-26, cynnydd o 65% o'r 304 a gofnodwyd yn ystod 2024-25.





Yn 2025-26, cofnodwyd y nifer fwyaf o danau Glaswelltir yn Ch1, gyda 254 (50.7%) o'r cyfanswm a gofnodwyd ar gyfer y flwyddyn yn digwydd yn y cyfnod hwn.

## 16 Tanau gwyllt

Gostyngodd cyfanswm y tanau gwyllt o 44 yn 2024–25 i **40** yn 2025–26, sy'n ostyngiad o 9%. Gostyngodd tanau gwyllt damweiniol o 40 i 33 o ddigwyddiadau dros yr un cyfnod (gostyngiad o 18%).
Fodd bynnag, cynyddodd nifer y tanau gwyllt bwriadol o bedwar i saith digwyddiad. O ganlyniad, roedd tanau bwriadol yn cynrychioli cyfran sylweddol uwch o'r holl danau gwyllt, gan gynyddu o tua un o bob deg digwyddiad yn 2024–25 i bron i un o bob pump yn 2025–26. Mae'r newid hwn yn dangos newid ym mhroffil achosion tanau gwyllt, er y gostyngiad cyffredinol yn nifer y digwyddiadau.


Dylid nodi bod y diffiniad a'r paramedrau gweithredol a ddefnyddir i ddosbarthu tanau gwyllt wedi esblygu dros y cyfnod a gyflwynir. Er mwyn sicrhau cysondeb ac i alluogi cymhariaeth ystyrlon dros amser, mae'r ffigurau a ddangosir yn yr adroddiad hwn wedi'u cyfrifo yn unol â'r diffiniad cyfredol o dân gwyllt, gyda data hanesyddol wedi'i ail-ddadansoddi'n ôl-weithredol i gyd-fynd â'r paramedrau hyn.



## 17 Llifogydd

Gwelwyd gostyngiad clir mewn digwyddiadau llifogydd ac achub o ddŵr yn 2025-26 o gymharu â'r blynyddoedd diwethaf. Gostyngodd nifer y digwyddiadau llifogydd yn sylweddol o 76 yn 2024–25 i **31** yn 2025–26, sy'n ostyngiad o bron i 60%. Mae hyn yn dilyn uchafbwynt mewn gweithgarwch llifogydd yn 2023–24, pan gofnodwyd 118 o ddigwyddiadau, ac mae'r duedd ar-i-lawr wedi parhau ers y pwynt hwnnw.

Gostyngodd nifer y digwyddiadau achub o ddŵr hefyd yn 2025-26, gan ostwng o 39 i 19 digwyddiad o gymharu â 2024-25; gostyngiad o ychydig dros 50 y cant. Mae'r gostyngiad hwn yn dilyn cyfnod o gynnydd parhaus rhwng 2021–22 a 2024–25.



## Geirfa

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn perthyn i un o dri chategori – prif danau, tanau eilaidd neu danau simdde. |
| Prif Danau | Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simdde, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfeilion), cerbydau, carafannau a threlars, storfeydd awyr agored, peiriannau a pheirianwaith, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr agored eraill, megis pontydd, blychau post, twneli, ac ati.<br><br>Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categoreiddio'n brif danau os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achub neu ddianc, ac felly hefyd danau mewn unrhyw leoliad yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân i ymdrin â nhw. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simdde nac yn brif danau.<br><br>Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd i ymdrin â nhw.<br><br>Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, mewn coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried – yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth – i fod yn brif danau), dodrefn tu allan, goleuadau traffig, ac ati. |
| Tanau Simdde | Tanau mewn adeiladau a ddefnyddir gan bobl yw'r rhain, a'r tân wedi'i gyfyngu i strwythur y simdde, hyd yn oed os yw difrod gwres neu fwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simdde ei hun.<br><br>Nid yw tanau simdde yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi ymdrin â nhw. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Digwyddiadau heb dân yw'r rhain lle mae angen presenoldeb peiriant tân neu swyddog ac maent yn cynnwys:<br><br>a) Argyfyngau lleol, e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffordd, achub pobl, 'gwneud yn ddiogel' ac ati;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig, e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati;<br>d) Trefniadau blaenorol i fynd i ddigwyddiadau, a all gynnwys rhoi cyngor a chynnal archwiliadau. |
| Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol) | Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn credu bod digwyddiad ac yn mynd i leoliad, ond ar ôl cyrraedd yn darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, nac wedi bodoli.<br><br>Sylwer: os yw'r peiriant tân yn cael ei 'droi rownd' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, nid yw'r alwad yn cael ei hystyried fel un y mae'r gwasanaeth wedi mynd iddi ac nid oes angen rhoi gwybod amdani. |

| | |
|---|---|
| Galwadau Diangen – Maleisus | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys bwriadau maleisus bwriadol a'r rhai yr amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau Diangen – Diffuant | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda phob ewyllys da, gan gredu y byddai'r GTA yn mynd i dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig go iawn. |
| Galwadau Diangen – Systemau Larwm Awtomatig (SLA) | Mae'r rhain yn alwadau sydd wedi'u hysgogi gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larymau sydd wedi'u seinio'n ddamweiniol neu pan fo larwm yn seinio ac unigolyn yn galw'r GTA yn ôl yr arfer fel rhan o drefniant sefydlog, h.y. heb unrhyw 'farnu', er enghraifft galwad gan ganolfan galwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad. |
| Adeilad – Anheddau | Eiddo sy'n fan preswylio, h.y. cartref lle mae pobl yn byw, ac eithrio gwestai, hosteli a strwythurau preswylio nad ydynt yn barhaol. |
| Adeilad – Amhreswyl | Eiddo megis ysbytai, swyddfeydd, siopau, ffatrïoedd, warysau, bwytai, sinemâu, adeiladau cyhoeddus, adeiladau crefyddol, adeiladau amaethyddol, gorsafoedd rheilffordd, siediau, carchardai. |
| Adeilad – Preswyl Arall | Eiddo fel gwestai, hosteli a sefydliadau preswyl, busnesau gwely a brecwast, cartrefi nyrsio/gofal, neuaddau preswyl myfyrwyr. |
| Cerbyd (Ffordd a Thrafnidiaeth Arall) | Cerbyd ffordd, cerbyd rheilffordd, cerbyd awyr, cwch. |
| Awyr agored | Caeau, glaswelltir, coetir, cynwysyddion sbwriel, blychau post. |
| Tanau gwyllt | Tân glaswelltir, coetir a chnydau lle'r aeth 4 cerbyd neu fwy i'r digwyddiad, neu lle bu'r Gwasanaeth yn bresennol am 6 awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod ardal difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr. |
| Salwch Tymor Byr | Absenoldebau o 27 diwrnod calendr a llai. |
| Salwch Hirdymor | Absenoldebau o 28 diwrnod calendr a mwy. |